Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

MAE'R YMATEB HWN HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

26 Medi 2022

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i ymateb yr heddlu i fyrgleriaethau, lladradau a throseddau meddiangar eraill

Fel Comisiynydd ardaloedd Dyfed a Phowys, fy ngweledigaeth yw sicrhau Dyfed-Powys llawn cymunedau diogel. Troseddau meddiangar yw'r troseddau y mae'r cyhoedd fwyaf tebygol o'u dioddef. Mae tystiolaeth gref y gellir atal y troseddau hyn drwy dactegau sydd naill ai'n dileu'r cyfleoedd i gyflawni trosedd neu'n gweithredu fel atalydd drwy gynyddu'r siawns y bydd troseddwr yn cael ei ddal.

Ar ôl trafod yr arsylwadau yn yr adroddiad gyda Heddlu Dyfed-Powys, mae'n dda gennyf ddweud fy mod wedi fy sicrhau mai'r rhain fydd y Ffocws ar gyfer yr Heddlu er mwyn nodi a mesur safonau a pherfformiad.

Yn gyffredinol, mae dadansoddi data dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys, a nododd *Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu – Archwiliad o Heddlu Dyfed-Powys 2021/22 PEEL* AHGTAEF fod gan yr Heddlu ethos o atal trosedd, a gwelwyd a dyfynnwyd enghreifftiau da o waith dadansoddol yn cael ei ddefnyddio er mwyn datrys problemau, a thactegau ataliol yn cael eu defnyddio gan swyddogion lleol sy'n gweithio gydag asiantaethau partner, yn seiliedig ar strategaeth plismona bro gynhwysfawr.

Mae cyflwyno INTACT, sef rhaglen bartneriaeth amlasiantaeth ar gyfer mynd i'r afael â thrais difrifol a throseddu trefnedig yn ardaloedd Dyfed a Phowys yn anelu i gadw'n cymunedau'n ddiogel gyda'n gilydd. Un o flaenoriaethau'r rhaglen yw atal ac ymyrraeth gynnar, ac mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni gan dîm o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu INTACT a benodwyd ym mis Ebrill 2021.

Sicrhaodd fy swyddfa arian drwy Gronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref ar gyfer mesurau y profwyd eu bod yn lleihau trosedd, gan gynnwys cyflogi dau Warden Cymunedol, prynu pecynnau SelectaDNA, cymorth gweithgarwch atal trosedd cymunedol, gwelliannau amgylcheddol a phecynnau Atal Trosedd Cymunedol. Pecynnau marcio eiddo yw'r pecynnau SelectaDNA sy'n cynnwys fformiwla DNA unigryw, olrheiniwr uwchfioled a microddotiau y gall pobl ddefnyddio i farcio eu heitemau cartref gwerthfawr, fel bod modd i'r heddlu eu holrhain os ydynt yn cael eu dwyn. Yn yr un modd, mae'r pecyn cofrestru beiciau'n cynnwys sticeri, marciau ffrâm a microddotiau er mwyn rhoi marc adnabod unigryw i feic. Gall defnyddwyr ychwanegu disgrifiadau a ffotograffau er mwyn sicrhau bod modd i'r heddlu adnabod eu beic a'i ddychwelyd yn achos lladrad drwy'r Cynllun BikeRegister.

Gan hynny, derbyniaf yr argymhellion fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad:

1. **Dylai Heddluoedd sicrhau bod eu harferion rheoli lleoliadau trosedd yn glynu wrth yr arfer proffesiynol awdurdodedig ar reoli ymchwiliadau ar gyfer troseddau meddiangar difrifol neu ddarparu rhesymeg dros wyro oddi wrtho. Dylent hefyd gynnwys:**

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

- **rhoi cyngor amserol a phriodol i ddioddefwyr yn ystod eu galwad cychwynnol; a**
- **gweithredu proses asesu risg megis THRIVE, gan ei chofnodi'n glir, a thynnu sylw at y rhai sydd wedi dioddef fwy nag unwaith ar gyfer cymorth pellach.**

Mae'n galonogol bod canfyddiadau PEEL AHGTAEF wedi amlinellu bod Heddlu Dyfed-Powys yn adnabod galwyr mynych a galwyr sy'n agored i niwed ac eraill yn y cartref a allai fod yn agored i niwed hefyd. Yr wyf wedi fy sicrhau bod gan Heddlu Dyfed-Powys swyddogion a staff achrededig sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n defnyddio'r sgiliau arbenigol hynny'n briodol, er mwyn darparu cymorth tystiolaethol a chudd-wybodaeth ar gyfer ymchwiliadau, ynghyd â rhoi argymhellion atal priodol, realistig a chost effeithiol i ddioddefwyr. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol fod cyfradd byrgleriaethau preswyl sy'n arwain at ganlyniad cyfiawnder troseddol dal yn isel, ac mae hyn yn parhau'n faes allweddol i'w wella.

**2. Dylai Heddluoedd sicrhau bod ymchwiliadau troseddau meddiangar difrifol yn destun cyfeirio a goruchwylio effeithiol. Dylai hyn ganolbwyntio ar:**

- **sicrhau bod gan oruchwylwyr y gallu a'r galluedd i oruchwylio ymchwiliadau'n ystyrlon.**
- **sicrhau bod ymchwiliadau'n bodloni'r safon ofynnol ac yn cyflawni canlyniadau addas sy'n ystyried lleisiau neu farn dioddefwyr;**
- **gweithredu codau canlyniad ymchwiliad yn briodol; a**
- **chydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr a chofnodi tystiolaeth o gydymffurfiaeth.**

O ganlyniad i ganfyddiadau AHGTAEF, mae Heddlu Dyfed-Powys nawr yn defnyddio model newydd, gan sicrhau bod ymchwiliadau'n cael eu dyrannu i staff profiadol a bod dioddefwyr yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliant o ran y gyfradd Canlyniad Cadarnhaol, yn ogystal â gostyngiad o ran troseddau sy'n arwain at anawsterau tystiolaethol. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys strwythur llywodraethu clir mewn grym ar gyfer monitro a gwella safonau ymchwiliadau, a phroses glir ar gyfer goruchwylio a chydlynu hawl dioddefydd i adolygiad. Er ei fod yn bryder bod gan Heddlu Dyfed-Powys nifer anghyfartal o ymchwiliadau lle mae dioddefydd yn tynnu ei gefnogaeth yn ôl o gymharu ag ardaloedd eraill, yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu wedi comisiynu adolygiad holistig o ganlyniadau er mwyn mynd i'r afael â'r holl ymddygiadau, gweithdrefnau a phrosesau cydrannol sy'n cyfrannu at y cyfraddau canlyniad, ac adroddir ar hyn ddiwedd y flwyddyn.

Byddaf yn parhau i graffu ar y cynnydd yn erbyn yr argymhellion drwy'r fforymau priodol.

Mae fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed-Powys er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a geir drwy weithgarwch AHGTAEF, er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr Dyfed a Phowys.